

Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2016 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	Gweithredu
<p>PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carol Bell, Darpar Is-lywydd; Carys Howell; Glenda Jones; Kay Andrews; Keshav Singhal; Rachel Hughes; Tony Atkins; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Steph Mastoris, Cyfarwyddwr Gweithredu Dros Dro; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfyngau Digidol; Richard Bevins, Ceidwad y Gwyddorau Naturiol; Diane Gwilt, Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>HEFYD YN BRESENNOL: Kate Clark, Prif Weithredwr Cadw, a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.</p>	
<p>Datgan buddiannau: Rachel Hughes – Eitem 6.1.5 Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd 2016 ar dir oedd yn eiddo i'w thad.</p>	
<p>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>1.1 Croesawyd yr aelodau, a Kate Clark i'r cyfarfod. Croesawyd John Morgan i'r cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd i weld y trafodaethau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Hywel Ceri Jones, Jessica Seaton, Robert Pickard, Victoria Provis a Lesley-Anne Kerr, yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.</p>	
<p>Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod recriwtio Ymddiriedolwyr, y Rhaglen Newid, Cynllunio Ariannol a Sganio'r Gorwel a chawsant eu briffio arnynt.</p> <p><i>Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.</i></p>	
<p>2 COFNODION</p> <p>5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2016, 31 Mawrth 2016 a 25 Ebrill 2016.</p>	
<p>3 MATERION YN CODI o gofnodion 17 Mawrth 2016</p> <p>3.1 7.2.2 Bod Cynllun Strategol 2016-19 wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2016.</p>	
<p>4 Strategaeth Ddehongli 2016-21</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>4.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli.</p> <p>4.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y strategaeth yn diffinio ‘dehongli amgueddfaol’ ac yn canolbwyntio ar ddatblygu cysondeb mewn safonau a chydlyniant yng ngwaith dehongli'r Amgueddfa. Roedd y strategaeth bum mlynedd yn pennu amcanion ar gyfer gwella'r ffordd roedd yr Amgueddfa'n mynd ati i ddehongli, gan adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol ac arferion da a fabwysiadwyd eisoes. Nododd yr Aelodau bod y strategaeth wedi'i datblygu trwy gydweithio a diolchwyd i gyfranwyr o bob rhan o'r sefydliad am eu gwaith. Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn parhau i fonitro a datblygu'r strategaeth, a byddent yn cefnogi pob amgueddfa unigol wrth fabwysiadu strategaeth a fyddai'n diwallu anghenion lleol. Roedd cofnodi'r broses o greu'r strategaeth ddehongli yn elfen bwysig o'r gwaith. Roedd y strategaeth yn nodi pedair safon: (1) Datblygu cysondeb o ran y safon genedlaethol; (2) Sicrhau bod y gwaith yn cael effaith fawr; (3) Datblygu meini prawf cyffredin ar gyfer llwyddiant; (4) Sicrhau enw da yn rhyngwladol ym maes dehongli. Roedd yr Amgueddfa'n credu y byddai cryfder ei henw da yn rhyngwladol yn cael ei seilio ar y ffordd yr oedd yr Amgueddfa'n gweithio'n ddwyieithog ac yn gydgynhyrchu – dwy agwedd sy'n arbennig o Gymreig ac yn nodweddiadol o'r ffordd y mae cymunedau yng Nghymru wedi gweithio yn y gorffennol.</p> <p>4.3 Diolchodd y Llywydd i'r Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli am y gwaith ac am eglurder yr adroddiad. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd canfod anghenion defnyddwyr. Oherwydd y cydweithio a fu wrth ddatblygu'r strategaeth a chytuno ar yr egwyddorion, llwyddwyd i fynd i'r afael â'r materion ym maes dehongli oedd yn destun cryn drafodaeth yn yr Amgueddfa. Nododd yr Aelodau enghreifftiau eraill o arferion gorau, yn Cadw er enghraifft, a nodi ei bod yn rhaid cael effaith emosiynol ar bobl a'u denu i gymryd rhan weithredol er mwyn llwyddo. Bu'r Aelodau'n ystyried sut y gallai'r Amgueddfa sefydlu safonau ansawdd a'u hyrwyddo yng Nghymru a'r tu hwnt. Roedd cyfraniad staff blaen tŷ yn allweddol – yn ymwneud â'r ymwelwyr er mwyn ychwanegu at y gwaith dehongli ac atgyfnerthu'r negeseuon. Yn ogystal, roedd yr Amgueddfa'n ymwybodol o'r gwahanol ddulliau dysgu a'r angen i ystyried anghenion deallusol ac emosiynol.</p> <p>4.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y strategaeth.</p>	
<p>5 DIWEDDARIAD AR BROJECT 'CREU HANES' SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU</p> <p>5.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>5.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y gwaith ar y Gweithdy yn tynnu tua'r terfyn a bod y cynnydd ar y Prif Adeilad i'w weld. Roedd mwy o waith yn digwydd ar y Cynllun Gweithgarwch, yn awr bod yr adeiladau'n datblygu. Bu Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar ymweliad safle ac mewn cyfarfod a</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>chanmolodd y gwaith a wnaed. Byddai'r broses gaffael ar gyfer y casys arddangos a gwaith gosod orielau'r Gweithdy a'r Prif Adeilad wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr wythnos.</p> <p>5.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p>6 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>6.1 Briffiad Chwarterol Chwarter 4; Materion Cyfredol</p> <p>6.1.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>6.1.2 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Pennaeth Polisi a Chynllunio ar uchafbwyntiau'r adroddiad, yn cynnwys ffigurau ymwelwyr, ymweliadau addysg ffurfiol, ymweliadau â'r wefan a'r cynnydd o'i gymharu â'r Weledigaeth a'r Amcanion Galluogi.</p> <p>6.1.3 Nododd yr Aelodau bod y ffigwr diwedd blwyddyn ar gyfer ymwelwyr 2015/16 yn 1,674,807 sef 5.33% yn uwch na'r targed, ond ychydig, 0.66%, yn is na ffigwr 2014/15, sef 1,685,954. Roedd nifer yr ymweliadau addysg ffurfiol yn is na'r targed, a nododd yr Aelodau bod ffactorau mewnol ac allanol i gyfrif am hyn, a bod yr Amguddfa'n dal i feincnodi ei chanlyniadau yn erbyn amgueddfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig.</p> <p>6.1.4 Nododd yr Aelodau y cyfleoedd a ddôi yn sgil Bagloriaeth Cymru i hybu'r economi greadigol trwy addysg bellach/uwch. Roedd gwirfoddoli'n elfen allweddol o Fagloriaeth Cymru hefyd, a nododd yr Aelodau waith yr Amgueddfa ar y Rhaglen Cyfuno i gefnogi hyn.</p> <p>6.1.5 Nododd yr Aelodau bod ffigurau ymwelwyr blynyddol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (tua 500,000) yn nesáu at rai Amgueddfa Werin Sain Ffagan – y rhan o Amgueddfa Cymru sy'n cael y nifer fwyaf o ymwelwyr. Roedd cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n enfawr at y llwyddiant hwn. Nododd yr Aelodau y rhan yr oedd nawdd a chyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill wedi'i chwarae yn sicrhau cyllid cyfatebol. Nododd Rachel Hughes, un o'r Ymddiriedolwyr, ei diolch am gyfraniad Amgueddfa Cymru at Eisteddfod yr Urdd.</p> <p>6.1.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p>7 CASGLIADAU AC YMCHWIL</p> <p>7.1 Adroddiad Casgliadau ac Ymchwil</p> <p>7.1.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>7.1.2 <u>Adroddwyd</u>: Nododd Ceidwad y Gwasanaethau Casgliadau bod yr adroddiad yn cyfeirio at weithgareddau ym meysydd eiriol a chyfathrebu, rhaglenni cyhoeddus, partneriaethau strategol, cynhyrchu incwm a'r</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>amgueddfa ddigidol gysylltiedig.</p> <p>7.1.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod y Grŵp Cyngori Celf yn gwneud cais i roi benthg gweithiau i Japan cyn cyflwyno hynny i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr i gael ei gymeradwyo.</p> <p>7.2 Rhestr Caffaeliadau a Rhoddion</p> <p>7.2.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>7.2.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn dangos gwerth y Grant Caffael Sbesimenau o ran sicrhau cymorth ychwanegol oddi wrth gyrrff eraill fel Cronfa Dreftaeth y Loteri, fel y gallai'r Amgueddfa barhau i gaffael eitemau. Mynegodd y Bwrdd eu gwerthfawrogiad unwaith eto o'r cymorth a gafwyd gan Ymddiriedolaeth Derek Williams.</p> <p>7.2.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p> <p>7.3 Benthyciadau Rhyngwladol</p> <p>7.3.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>7.3.2 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau bod y Grŵp Cyngori Celf wedi ystyried y ceisiadau am fenthyciadau, a nodwyd eu hargymhellion. Roedd yr Amgueddfa wedi adolygu cost gwneud benthyciadau ac unrhyw gyfleoedd i gynhyrchu incwm trwy hynny. Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo benthyciad rhyngwladol i Amgueddfa Moesgaard yn Nenmarc ar 25 Ebrill 2016 ond ni ddigwyddodd hynny.</p> <p>7.3.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod y benthyciadau'n cael eu cymeradwyo.</p> <p>7.4 Dileu o'r casgliadau</p> <p>7.4.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>7.4.2 <u>Adroddwyd</u>: Cadarnhaodd y Ceidwad Gwasanaethau Casgliadau y byddai'r Amgueddfa'n dal i gael defnyddio casgliad ffilmiau Evan Morgan ar ôl iddo gael ei drosglwyddo i Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.</p> <p>7.4.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny ac fe gymeradwywyd y penderfyniad i'w ddileu o'r casgliadau.</p>	<p>Ceidwad Gwasanaethau Casgliada</p>
<p>8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR ARDDANGOSFEYDD</p> <p>8.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Arddangosfeydd a Rhaglenni a'r Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfyngau Digidol.</p> <p>8.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn tynnu sylw at weithgareddau'r Amgueddfa fel prif gynhyrchydd arddangosfeydd Cymru ym meysydd</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>diwylliant, treftadaeth a'r gwyddorau naturiol. Bu'r Amgueddfa'n cydweithio â chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid ar draws ei hamgueddfeydd i drefnu arddangosfeydd ac arddangosiadau a oedd yn apelio at ymwelwyr a chynulleidfaoedd targed: twristiaid, teuluoedd a phobl ifanc. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys adnewyddu'r lle ar gyfer arddangosfeydd dros dro a chreu arddangosfa <i>Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol</i> i gyd o fewn naw mis. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith caled ar y gweddnwidiad, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd dathlu Cwpan Rygbi'r Byd a <i>Cymru'n Cofio 1914-1918</i> – y gweithgareddau yn yr amgueddfeydd cenedlaethol i gyd i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y rhaglen arddangosfeydd dros dro yn torri tir newydd gyda chynulleidfaoedd newydd.</p> <p>8.3 Llongyfarchodd yr Aelodau'r staff ar sicrhau bron i 500,000 o ymweliadau ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ystod un o'r blynyddoedd mwyaf heriol i'r Amgueddfa. Nododd yr Aelodau y ffordd yr oedd yr holl amgueddfeydd wedi trawsnewid eu harddangosfeydd yn brofiadau personol i'r ymwelwyr. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parhau i gydweithio â phartneriaid hen a newydd.</p> <p>8.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p>9 FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL</p> <p>9.1 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol fod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y fframwaith drafft. Roedd yn cael ei ddatblygu ymhellach trwy is-grŵp oedd yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yr Is-lywydd, y Trysorydd a dau Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.</p> <p>9.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a phan fyddai'r ddogfen yn barod y byddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn gyntaf ar gyfer cymeradwyaeth derfynol cyn dod at y Bwrdd Ymddiriedolwyr.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol</p>
<p>10 AELODAETH O BWYLLGORAU</p> <p>10.1 <u>Derbyniwyd</u>: Cyflwynwyd papur yn nodi aelodaeth bresennol y gwahanol bwyllgorau ac is-bwyllgorau. Ac eithrio penodi Carys Howell yn ddarpar Gadeirydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Caerllion, ni chynigiwyd unrhyw newidiadau eraill hyd nes y byddai Ymddiriedolwyr newydd wedi'u penodi.</p> <p>10.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod Carys Howell yn cael ei phenodi'n Gadeirydd CCB Caerllion. Os bydd cworwm yn broblem i unrhyw gyfarfod cyn penodi'r Ymddiriedolwyr newydd, bydd y Llywydd yn troi yn ôl at y rhestr aelodaeth.</p>	<p>Y Llywydd</p>
<p>11 ADRODDIAD AR YR AROLWG HUNAN-WERTHSO O</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>EFFEITHLONRWYDD Y BWRDD 2016</p> <p>11.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>11.2 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Llywydd y byddai sylwadau'n ymwneud â llywodraethiant corfforaethol yn cael eu trafod trwy'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol.</p> <p>11.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Bwriedir ymgynghori â'r Aelodau ynghylch y diwrnod yr oeddent yn ei ffafrio ar gyfer cyfarfod a sut y dymument gael papurau'r cyfarfodydd. Bwriedir cynnal archwiliad o gysylltiadau allweddol Aelodau. Bydd yr Amgueddfa'n datblygu dogfen yn nodi negeseuon allweddol Amgueddfa Cymru.</p>	<p>Ysgrifennydd y Amgueddfa / Rheolwr Materion Corfforaethol ac Eiriolaeth</p>
<p>12 POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN AR GYFER YMDDIRIEDOLWYR</p> <p>12.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>12.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod bwriad i adolygu'r polisi bob tair blynedd fel rhan o'r gweithdrefnau llywodraethiant. Roedd y polisi hwnnw, a'r polisi'n ymwneud â staff, wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>12.3 <u>Penderfynwyd</u>: Cymeradwyo'r polisi ar Chwythu'r Chwiban ar gyfer Ymddiriedolwyr</p>	
<p>13 DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL, ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL</p> <p>13.1 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol y byddai'r Bwrdd yn cael gwybod bob blwyddyn os oedd unrhyw faterioin yn codi. Nododd yr aelodau bod y broses ar gyfer cymeradwyo'r archwilwyr mewnol yn cael ei chynnal ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Amgueddfa yn cadeirio'r broses gaffael.</p> <p>13.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p>14 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH</p> <p>14.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau.</p> <p>14.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r holl ddigwyddiadau a riportwyd yn ystod y flwyddyn, ac yn rhoi'r diweddariadau deddfwriaethol. Nododd yr Aelodau bod awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad i fonitro lechyd a Diogelwch yn ei gyfarfodydd chwarterol.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
14.3 <u>Penderfynwyd</u> : Yn unol â hynny.	
<p>15 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD</p> <p>15.1 <u>Derbyniwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft:</p> <ul style="list-style-type: none"> 15.1.1 Grŵp Cyngori Celf 22 Ebrill 2016 15.1.2 Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau 28 Ebrill 2016 15.1.3 Mentrau AOCC Cyf. 10 Mai 2016 15.1.4 Pwyllgor Archwilio 24 Mai 2016 ac Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 15.1.5 Pwyllgori Ymchwil Ymgynghorol 24 Mai 2016 15.1.6 Ymddiriedolwyr Pensiynau 25 Mai 2016 15.1.7 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 25 Mai 2016 15.1.8 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 9 Mehefin 2016 <p>15.2 <u>Adroddwyd</u>: O ran y Pwyllgor Archwilio, nododd yr Ymddiriedolwyr bod yr Aelodau'n cael rhagor o wybodaeth am yr Amgueddfa a'r sector treftadaeth yn gyffredinol erbyn hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau perthnasol.</p> <p>15.3 O ran y Pwyllgor Pwyllgor Ymchwil Ymgynghorol, cofnododd y Llywydd ei bod yn gwerthfawrogi cyfraniad y Cadeirydd at waith y Pwyllgor. Nododd yr Aelodau bod ceisiadau am arian Ewropeaidd yn cael eu derbyn tan 2019.</p> <p>15.4 O ran cyfarfod yr Ymddiriedolwyr Pensiynau, nododd yr Aelodau bod y Cadeirydd wedi cysylltu â'r Rheolwyr Buddsoddi fel rhan o adolygiad rheolaidd. Nid oedd dim byd arwyddocaol i'w adrodd.</p> <p>15.5 O ran y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, adroddodd y Cadeirydd mai cyfarfod byr oedd y cyfarfod diwethaf er mwyn cael amser ar gyfer cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr (a oedd yn Sesiwn Gaeedig). Gallai'r Ymddiriedolwyr nad oedd yn Aelodau o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad gymryd cysur o'r cofnodion bod y Pwyllgor wedi ystyried perfformiad yr Amgueddfa yn fanwl. Roedd yn arbennig o bwysig bod hyn yn cael ei nodi wrth i'r Ymddiriedolwyr gwblhau'r arolwg hunan-werthuso.</p> <p>15.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p>16 UNRHYW FATER ARALL</p> <p>16.1 Adroddodd y Trysorydd bod y cyn Ymddiriedolwr, Miriam Griffiths, wedi Cadeirio CCB Caerllion o'r blaen. Eleni, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Trysorydd ac roedd Carys Howell yn bresennol fel darpar Gadeirydd. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod awyrgylch cadarnhaol iawn yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ac roedd perthynas braf rhwng aelodau'r CCB a'r staff yno. Nododd yr Aelodau mai o'r amgueddfa hon y daeth 42%</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>o'r incwm a godwyd o ymweliadau a hwyluswyd ar draws yr holl ddigwyddiadau.</p> <p>16.2 Nododd yr Ymddiriedolwyr eu diolch am naws cadarnhaol y cyfarfod ac am y ffordd yr oedd y Llywydd wedi cefnogi'r Amgueddfa dros y misoedd diwethaf.</p> <p>16.3 Cofnododd y Llywydd ei diolch, ar ran y Bwrdd, i Steph Mastoris a'r staff yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Roedd cyfarfod y Bwrdd wedi cael croeso mawr ganddynt ac roeddent wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar y Partneriaethau Dysgu Creadigol yn Abertawe, fel rhan o friffiad y Bwrdd ar y Rhaglen Cyfuno. Mae'r amgueddfa hon yn hybu ac yn arwain y gwaith hwn ac roedd pawb oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi'r gwaith oedd yn cael ei wneud.</p>	
<p>DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 29 Medi 2016 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	